Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2015

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

**Cyhoeddwyd:** Ionawr 2016

**Cyfeirnod y ddogfen:** 762A2015

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru ar info.officer@audit.wales.

Y tîm a wnaeth fy helpu i baratoi'r adroddiad hwn oedd Mike Jones, Jackie Joyce, Derwyn Owen a Dave Thomas.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | 4 |
| Adroddiad manwl | |
| Yr adroddiad hwn | 9 |
| Adran 1: Archwilio cyfrifon | 10 |
| Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2014-15 y Bwrdd Iechyd. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, tynnais sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at rai materion a chyflwynais adroddiad o sylwedd ochr yn ochr â'm barn archwilio | 10 |
| Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau | 12 |
| Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fonitro'i gynlluniau gwneud arbedion yn effeithiol, ac mae ganddo record dda o ran gwireddu balans ariannol. Serch hynny, er ei fod yn darogan y bydd yn mantoli'r cyfrifon yn 2015-16, mae'n wynebu heriau ariannol sylweddol ac mae angen iddo reoli risgiau yn gysylltiedig ag arbedion sydd wedi'u cynllunio a chael y cyfarwyddiaethau i ymrwymo i gyllidebau | 13 |
| Mae'r Bwrdd wedi gosod gweledigaeth glir ac mae'n parhau i gryfhau'i drefniadau llywodraethu, er mai'r her iddo yw gwella rhai trefniadau cefnogi llywodraethu ymhellach, mynd i'r afael â gwendidau yn y rheolaeth fewnol, a datblygu fframwaith rheoli perfformiad | 14 |
| Yn fy ngwaith archwilio perfformiad, canfuwyd cyfleoedd i sicrhau defnydd gwell o adnoddau mewn nifer o feysydd allweddol | 18 |
| Atodiadau | |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf | 25 |
| Ffi archwilio | 26 |
| Risgiau archwilio arwyddocaol | 27 |

# Adroddiad cryno

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio rwyf wedi'i gyflawni ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2015.
2. Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn y Bwrdd Iechyd yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.
3. Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn â swyddogion a chytunir ar eu cywirdeb ffeithiol cyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 1.
4. Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 18 Ionawr 2016. Caiff ei gyflwyno i gyfarfod dilynol o'r Bwrdd a rhoddir copi i bob aelod o'r Bwrdd Iechyd. Anogwn y Bwrdd Iechyd yn gryf i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (www.audit.wales).
5. Crynhoir y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

## Adran 1: Archwilio cyfrifon

6. Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2014-15, ond wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at rai materion. Mae a wnelo'r rhain â chyfrifyddu am waredu asedau, a hefyd y nifer o achosion o ordalu cyflog i staff.
7. Hefyd, cyflwynais adroddiad o sylwedd ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ynghyd â'm barn archwilio. Mae fy adroddiad yn egluro'r dyletswyddau ariannol newydd a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2014 gan Ddeddf Cyllid GIG (Cymru) 2014, sut y cyflawnodd y Bwrdd Iechyd yn eu herbyn, a'r goblygiadau ar gyfer 2015-16.
8. Deuthum hefyd i'r casgliadau canlynol:
   - paratowyd cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol;
   - roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheoli effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol; ac
   - roedd systemau ariannol a chyfrifyddu'r Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gweithredu yn unol â'r bwriad.
9. Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2014-15. Nodaf yn fanylach y sefyllfa ariannol a'r trefniadau rheoli ariannol yn Adran 2 o'r adroddiad hwn.

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**10.** Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Mae hyn yn cynnwys fy ngwaith ar yr asesiad strwythuredig, a oedd yn ystyried trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, digonolrwydd ei drefniadau llywodraethu, a’r cynnydd a wnaed mewn perthynas â’r materion gwella a nodwyd y llynedd. Cynhaliwyd adolygiadau archwilio perfformiad hefyd o feysydd cyflenwi gwasanaethau penodol. Mae'r gwaith hwn wedi esgor ar y casgliadau canlynol.

### Mae’r Bwrdd Iechyd yn parhau i fonitro’i gynlluniau gwneud arbedion yn effeithiol, ac mae ganddo record dda o ran gwireddu balans ariannol. Serch hynny, er ei fod yn darogan y bydd yn mantoli’r cyfrifon yn 2015-16, mae’n wynebu heriau ariannol sylweddol ac mae angen iddo reoli risgiau yn gysylltiedig ag arbedion sydd wedi’u cynllunio a chael y cyfarwyddiaethau i ymrwymo i gyllidebau

**11.** Gwireddodd y Bwrdd Iechyd falans ariannol yn 2014-15, fel yn y blynyddoedd cynt. Nodasom y llynedd fod y broses a sefydlwyd er nodi a chyflawni arbedion yn gadarn, ond y gellid gwella pethau o ran cael rhanddeiliaid mewnol i ymrwymo i’r cynlluniau arbedion, ac y byddai hyn yn allweddol er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd cynaliadwy a chylchol wrth symud ymlaen.

**12.** Yn 2015-16 mae’r Bwrdd Iechyd yn adrodd ar hyn o bryd y bydd yn mantoli’r gyllideb a chymryd y daw’r arian ychwanegol sydd wedi’i gynnwys yn ei Gynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd i law. Fodd bynnag, mae’n annhebygol o wireddu pob un o’i dargedau i arbed £14.6 miliwn, a hyd yma dim ond tua hanner cynlluniau cyllideb y cyfarwyddiaethau sydd wedi cael eu cymeradwyo’n derfynol gan y Cyfarwyddwr Clinigol/Gweithredol. Mae hyn eto’n awgrymu y bu’r gwelliant yn arafach na’r disgwyl o ran cael rhanddeiliaid mewnol i ymrwymo i’r broses o wneud arbedion.

### Mae’r Bwrdd wedi gosod gweledigaeth glir ac mae’n parhau i gryfhau’i drefniadau llywodraethu, er mai’r her iddo yw gwella rhai trefniadau cefnogi llywodraethu ymhellach, mynd i’r afael â gwendidau yn y rheolaeth fewnol, a datblygu fframwaith rheoli perfformiad

**13.** Roedd fy ngwaith asesu strwythurol yn 2014 yn nodi, er bod y trefniadau llywodraethu a defnyddio adnoddau yn gadarn at ei gilydd, fod angen eu datblygu ymhellach. Gwnaeth y Bwrdd Iechyd gynnydd da yn ystod 2015 o ran mynd i’r afael ag argymhellion adolygiad strwythuredig 2014 – yn arbennig, y dylid datblygu Fframwaith Sicrwydd Bwrdd, adolygu strwythur y pwyllgorau a sicrhau bod yr holl is-bwyllgorau yn cynnal hunanasesiad.

**14.** Yn ystod 2015, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) adolygiad dilynol i edrych ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â’r argymhellion a nododd yn ei adolygiad llywodraethu gwreiddiol yn 2012. Dywedodd AGIC: ‘Yn gyffredinol, mae AGIC yn falch ac wedi’i chalonogi gan y cynnydd a wnaed gan y bwrdd iechyd ers yr adolygiad cychwynnol yn 2011’.

15. Canfu fy gwaith asesu strwythuredig yn 2015:

- Mae cynllun strategol tair blynedd y Bwrdd Iechyd (ei Gynllun Tymor Canolig Integredig) yn nodi gweledigaeth glir. Mae'r ffordd y mae'n ymdrin â chynllunio strategol ynghyd â chreu'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni yn darparu sylfaen gadarn er mwyn symud y sefydliad yn ei flaen a chefnogi gweithgarwch gwella. Fodd bynnag, gallai'r trefniadau i adrodd cynnydd yn erbyn y cynllun gael eu cryfhau.
- Mae'r Bwrdd yn arddangos arweinyddiaeth strategol dda, ymddygiad da, gweinyddiaeth effeithiol ac ymrwymiad i fod yn agored a gwella ansawdd.
- Mae'r strwythur is-bwyllgorau yn cwmpasu holl fusnes y Bwrdd Iechyd ac yn gefn i'r gofynion llywodraethu ond mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod lle i wella'r trefniadau mewn meysydd penodol, yn arbennig y trefniadau llywodraethu i gefnogi'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.
- Yn gyffredinol mae'r Bwrdd yn cael gwybodaeth ddigonol ac mae'n cryfhau a mireinio'r wybodaeth reoli ymhellach fel ei bod yn hyrwyddo craffu effeithiol a ffordd effeithiol o wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno i'r Bwrdd yn dangos ei fod yn wynebu sialensiau o ran cyrraedd rhai targedau perfformiad cenedlaethol allweddol.
- Yn gyffredinol mae'r mesurau rheoli mewnol yn effeithiol o ran cyflawni'r gofynion sicrwydd cyfredol ond mae angen gwella rhai agweddau, yn cynnwys rheoli gordaliadau i staff, rheolaeth dros waredu asedau, a'r data a ddefnyddir i gyfrifyddu'r darpariaethau Gofal Iechyd Parhaus.

## Yn fy ngwaith archwilio perfformiad, canfuwyd cyfleoedd i sicrhau defnydd gwell o adnoddau mewn nifer o feysydd allweddol

16. Fel rhan o'm hasesiad strwythuredig rwyf wedi adolygu nifer o elfennau allweddol sy'n galluogi defnydd effeithiol o adnoddau, tra mae fy ngwaith archwilio perfformiad ehangach wedi edrych ar nifer o feysydd cyflenwi gwasanaethau penodol. Dyma'r negeseuon allweddol o'r darnau gwaith hyn:

- Dyma a nodais drwy fy ngwaith Asesu Strwythuredig mewn perthynas ag elfennau galluogi allweddol:
  - mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau rheoli newid digonol ar waith yn sail i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, ond mae angen cryfhau'r ffordd yr eir ati i wireddu buddion; ac
  - nid yw lefel y buddsoddi a'r ymrwymiad i TGCh yn y Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r gwaith o gyflenwi gofal iechyd yn effeithiol, a bu'r Bwrdd yn araf yn ymateb i argymhellion blaenorol.
- Roedd fy adolygiad o wasanaethau nyrsio ardal yn canolbwyntio ar ba un a yw'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio a defnyddio'r adnoddau nyrsio ardal yn effeithiol fel rhan o'i drefn ehangach i ddarparu gofal yn y gymuned. Er imi ganfod bod gweledigaeth ar lefel uchel o ran y gwasanaethau nyrsio ardal, roedd angen gwaith pellach i gryfhau'r cynllunio ar y gwasanaeth a'r monitro perfformiad, ac i wella'r ddealltwriaeth o'r galw a'r ffordd o ddefnyddio staff.

- Yn ystod 2011, nododd gwaith yn y Bwrdd Iechyd gan Uned Cyflenwi a Chymorth Llywodraeth Cymru anomaleddau rhwng gweithgarwch dewisol wedi'i gynllunio a niferoedd gwirioneddol y cleifion ar y rhestr aros. O ystyried difrifoldeb y materion a nodwyd, penderfynais fod angen gwaith archwilio i asesu a oedd y Bwrdd Iechyd yn dangos diwydrwydd dyladwy wrth ymchwilio i'r anomaleddau a pha un a oes camau priodol wedi cael eu cymryd i atal problemau tebyg rhag digwydd eto. Er i'r Bwrdd Iechyd ymateb yn briodol i bryderon ynglŷn â'r anomaleddau o ran data'r rhestrau aros, canfu fy adolygiad fod sawl agwedd o'i ymchwiliad yn anfoddhaol. Tynnodd fy adroddiad sylw at bwysigrwydd cipio'r dysgu o'r prosesau ymchwilio er mwyn sicrhau na chaiff y problemau eu hailadrodd yn y dyfodol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno nifer o weithdrefnau i fynd i'r afael â'r argymhellion yn deillio o'm hadroddiad.
- Edrychodd fy adolygiad rheoli meddyginiaethau ar ba un a oedd trefniadau diogel, effeithlon ac effeithiol i reoli meddyginiaethau cleifion mewnol mewn ysbytai aciwt. Nodai'r canfyddiadau o'm hadolygiad fod y trefniadau corfforaethol yn gryf ar y cyfan, fod y berthynas waith rhwng staff fferylliaeth a staff ward yn dda, ond bod yna gyfleoedd i gryfhau rhai prosesau rheoli meddyginiaethau. Roedd y rhain yn cynnwys trosglwyddo gwybodaeth rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd, defnyddio mwy ar dechnoleg, mynd i'r afael â rhai materion yn ymwneud â chyfleusterau ac ehangu'r monitro ar berfformiad.
- Yn ystod 2013, cynhaliais adolygiad o wasanaethau orthopedeg ar draws Cymru[1]. Roedd yn cynnwys data amrywiol er mwyn deall perfformiad gwasanaethau orthopedeg ym mhob bwrdd iechyd. O ddadansoddi effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd y gwasanaethau orthopedeg sy'n cael eu darparu gan y Bwrdd Iechyd canfuwyd, er bod lefel y buddsoddi mewn gofal sylfaenol yn dda a'i bod yn ymddangos bod nifer yr atgyfeiriadau am wasanaethau orthopedeg yn lleihau, fod llawer o atgyfeiriadau yn cael eu hanfon drwy wasanaethau ffisiotherapi ac nad yw'r rheini'n gallu ymdopi â'r galw. Unwaith y maent ar y llwybr orthopedeg, roedd y gwasanaethau i gleifion allanol a mewnol yn aneffeithiol ar y cyfan a chymysg oedd y canlyniadau i gleifion.
- Cynhaliais adolygiad o apwyntiadau dilynol cleifion allanol i weld a oeddent yn cael eu rheoli'n effeithiol. Canfu fy adolygiad fod y Bwrdd Iechyd yn gwella'r rhestr aros am apwyntiadau dilynol o safbwynt cywirdeb ond fod nifer y cleifion sy'n wynebu oedi ar gynnydd a bod angen gweithredu pellach i asesu'r risgiau clinigol, i wella'r prosesau gweinyddol ac i fynd i'r afael â'r oedi can cael apwyntiadau dilynol.
- O ystyried y pwysau cynyddol ar yr arian refeniw a chyfalaf sy'n cael ei ddyrannu i gyrff GIG, cynhaliais adolygiad diagnostig lefel uchel o'r capasiti a'r adnoddau TGCh i roi rhyw syniad o ba mor dda yr oedd yr adnoddau TGCh presennol ar draws Cymru yn helpu i gyflenwi gofal iechyd, ac i nodi meysydd lle'r oedd angen mwy o ffocws. Seiliwyd fy adolygiad diagnostig ar ddadansoddiad o ddata

[1] Swyddfa Archwilio Cymru, **Adolygiad o Wasanaethau Orthopedeg**, Mehefin 2015.

cymharol a barn sampl o staff sy'n defnyddio systemau TGCh clinigol yn rheolaidd. Er bod rhai agweddau cadarnhaol, canfu fy ngwaith diagnostig nad yw'r lefel gyfredol o fuddsoddi ac ymrwymo i TGCh yn y Bwrdd Iechyd yn llwyr effeithiol o ran helpu i gyflenwi gofal iechyd, a bod lle i integreiddio systemau a lleihau'r ddibyniaeth ar bapur.

- Cynhaliais nifer o archwiliadau dilynol i asesu'r cynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion yr archwiliad blaenorol:
  - Canfu fy adolygiad o wasanaethau arlwyo ysbytai a maeth cleifion fod cynnydd da wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â'r argymhellion i wella'r gwasanaethau arlwyo a maeth a bod y cymhorthdal i wasanaethau arlwyo ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion wedi'i leihau'n sylweddol. Fodd bynnag, roedd lle o hyd i gryfhau rhai agweddau o sgrinio maethol, i sicrhau cymorth nyrsio amserol adeg prydau bwyd ac i leihau costau'r gwasanaeth arlwyo ar gyfer cleifion.
  - Euthum ar drywydd nifer o adroddiadau TGCh a chanfod bod y Bwrdd Iechyd yn cryfhau'i drefniadau yn y meysydd roeddem ni wedi'u hadolygu. Fodd bynnag, araf fu'r cynnydd yn erbyn ein hargymhellion blaenorol.

**17.** Hoffem ddiolch o galon i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Yr adroddiad hwn

**18.** Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau'r Bwrdd Iechyd yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Rhagfyr 2014 a mis Tachwedd 2015.

**19.** Ymgymeraf â'm gwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004[2]. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- **a)** archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u cyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
- **b)** bodloni fy hun yr aed i'r gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hwy at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu; a
- **c)** bodloni fy hun fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei defnydd o adnoddau.

**20.** Mewn perthynas ag c), rwyf wedi dod i gasgliadau pendant, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
- gwaith a wnaed fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a archwiliodd y trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd, a'r defnydd o adnoddau;
- archwiliadau perfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd; a
- chanlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau.

**21.** Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Ymddiriedolaeth eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

**22.** Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

- Adran 1: Archwilio cyfrifon.
- Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau.

**23.** Rhydd Atodiad 2 yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2015.

**24.** Yn olaf, mae Atodiad 3 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol arwyddocaol a amlygwyd gennyf yng Nghynllun Archwilio 2015 a sut yr ymdriniwyd â nhw drwy'r archwiliad.

[2] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

# Adran 1: Archwilio cyfrifon

**25.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd am 2014-15. Drwy'r datganiadau hyn mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig, a'i lif arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol yn rhan hanfodol o'r broses o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n briodol.

**26.** Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant am y cyfnod dan sylw;
- a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol - a achoswyd drwy dwyll neu wall;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol; a
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.

**27.** Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'm Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

**28.** Wrth wneud y gwaith hwn, mae't archwilwyr hefyd wedi ystyried digonolrwydd y canlynol:

- amgylchedd y Bwrdd Iechyd o ran rheolaeth fewnol; a
- systemau ariannol ar gyfer llunio'r datganiadau ariannol.

## Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2014-15 y Bwrdd Iechyd. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, tynnais sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at rai materion a chyflwynais adroddiad o sylwedd ochr yn ochr â'm barn archwilio

### Cafodd cyfrifon y Bwrdd Iechyd eu paratoi'n briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol

**29.** Derbyniais y datganiadau ariannol drafft am y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2015 ar 1 Mai 2015 yn unol â'r dyddiad terfyn y cytunwyd arno. O'i gymharu â'r blynyddoedd cynt rydym wedi cael peth anhawster i gael ymatebion a phapurau gwaith yn brydlon i ategu'r ffigurau yn y cyfrifon.

**30.** Cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon, mae'n ofynnol i mi, yn unol ag ISA 260, gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. Cyflwynodd fy Rheolwr Archwilio Ariannol adroddiad ar y materion hyn i

Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd ar 3 Mehefin 2015. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Roedd nifer o wallau cyfrifyddu mewn perthynas â gwaredu asedau sefydlog. Er i mi allu casglu nad oedd y gwallau o bwys drwyddi draw, mae nifer y gwallau yn amlygu methiannau rheoli arwyddocaol yn y systemau sydd ar waith i gofnodi gwaredu asedau sefydlog a chyfrifyddu amdanynt. | Ni chyfrifyddwyd yn y Datganiadau Ariannol drafft am rai asedau a nodwyd fel rhai a oedd wedi'u gwaredu yn ystod y flwyddyn. Dim oedd Gwerth Llyfr Net yr eitemau hyn, ond roedd y Gwerth Llyfr Gros i'w ysgrifennu allan o'r Datganiadau Ariannol yn £559,000. Cafodd y gwall hwn ei nodi gan dîm Cyllid y Bwrdd Iechyd ar ôl cyflwyno'r cyfrifon drafft ac addaswyd ar ei gyfer erbyn hyn.<br>Dangosodd canlyniadau ein profion archwilio fod 43 y cant o'n sampl yn ymwneud ag asedau a waredwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Dim oedd Gwerth Llyfr Net yr holl asedau hyn.<br>Hefyd, roedd i 43 y cant o'r sampl gwarediadau enillion gwerthu bach nad oeddent wedi'u cofnodi'n gywir fel enillion o werthu asedau sefydlog. Roedd Gwerth Llyfr Net yr asedau hyn yn isel iawn neu'n ddim, ac er na chawsant eu mesur yn union roedd yr enillion oddeutu £17,000.<br>Ar ben hynny, nid oedd 14 y cant o'r asedau yn ein sampl wedi cael eu gwaredu mewn gwirionedd ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2014-15, er nad oeddent yn cael eu defnyddio mwyach. |
| Mae nifer a gwerth y gordaliadau i staff sydd wedi gadael cyflogaeth y Bwrdd ond sy'n dal i gael eu talu yn destun pryder. | Yn ystod blwyddyn 2014-15 1,gadawodd 163 aelod staff gyflogaeth y Bwrdd Iechyd. Nododd y Cydwasanaethau 74 achos lle'r oedd staff yn dal i gael tâl ar ôl eu dyddiad terfynu. Roedd cyfanswm gwerth y gordaliadau yn £234,288, ac mae trefniadau wedi'u gwneud i adennill hyn. Drwy archwilio'r wybodaeth hon a chynnal profion ychwanegol ein hunain rydym wedi casglu na fyddai unrhyw gamddatganiad yn Natganiadau Ariannol 2014-15 wedi bod yn berthnasol. Fodd bynnag, rydym o'r farn fod nifer a gwerth y gordaliadau yn sgil staff yn ymadael yn wendid yn y trefniadau rheoli mewnol y dylid ei ddwyn i sylw'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.<br>Ers dyddiad ein hadroddiad (Mehefin 2016) mae'r Archwilwyr Mewnol wedi adolygu'r maes hwn ac wedi gwneud argymhellion gwella. Cafodd yr argymhellion eu derbyn gan y rheolwyr. |

**31.** Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, cynhaliais yr adolygiadau canlynol hefyd:

- Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan - deuthum i'r casgliad fod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2015, a bod y ffurflen wedi'i pharatoi'n unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys; a

- Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol - deuthum i'r casgliad fod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau llawn a bod yr Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

**32.** Mae fy archwiliad annibynnol ar wahân o ddatganiadau ariannol y cronfeydd a ddelir mewn ymddiriedaeth wedi'i gwblhau. Cafodd fy adroddiad ei lofnodi ar 9 Tachwedd 2015, ac nid oedd unrhyw faterion i'w hadrodd.

# Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**33.** Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun fod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio'u hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- adolygu trefniadau rheolaeth ariannol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud i roi cynlluniau arbed costau ar waith a'u cyfraniad at y broses o wireddu balans ariannol;
- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd drwy fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig, gan gynnwys adolygu'r cynnydd a wnaed ers y llynedd yn y meysydd a nodwyd i'w gwella;
- defnydd penodol o waith adnoddau o ran rheoli meddyginiaethau, gwasanaethau nyrsio ardal, apwyntiadau dilynol cleifion allanol, gwasanaethau orthopedeg, anomaleddau o ran rhestrau aros ac adolygiad archwilio diagnostig lleol o gapasiti ac adnoddau TGCh; ac
- asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran mynd i'r afael â'r materion a nodwyd drwy waith archwilio blaenorol o ran arlwyo a maeth cleifion, archwiliadau rheoli gwybodaeth a thechnoleg, ac adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd o ran dilyn hynt argymhellion archwilio allanol.

**34.** Crynhoir prif ganfyddiadau'r gwaith hwn o dan y penawdau canlynol.

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fonitro'i gynlluniau gwneud arbedion yn effeithiol, ac mae ganddo record dda o ran gwireddu balans ariannol. Serch hynny, er ei fod yn darogan y bydd yn mantoli'r cyfrifon yn 2015-16, mae'n wynebu heriau ariannol sylweddol ac mae angen iddo reoli risgiau yn gysylltiedig ag arbedion sydd wedi'u cynllunio a chael y cyfarwyddiaethau i ymrwymo i gyllidebau

### Gwireddodd y Bwrdd Iechyd falans ariannol yn 2014-15, fel yn y blynyddoedd cynt. Nodasom y llynedd fod y broses a sefydlwyd er nodi a chyflawni arbedion yn gadarn, ond y gellid gwella pethau o ran cael rhanddeiliaid mewnol i ymrwymo i'r cynlluniau arbedion, ac y byddai hyn yn allweddol er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd cynaliadwy a chylchol wrth symud ymlaen

**35.** Deuthum i'r casgliad hwn oherwydd:

- roedd yn un o'r byrddau iechyd cyntaf i gael ei Gynllun Tymor Canolig Integredig treigl tair blynedd wedi'i lofnodi'n derfynol a'i gymeradwyo gan Weinidogion Cymru;
- unwaith eto cadwodd o fewn ei derfynau adnoddau refeniw a chyfalaf ar gyfer 2014-15;
- mae wedi sefydlu gweithdrefnau cadarn i osod a monitro targedau arbed costau, gyda chynlluniau ar lefel cyfarwyddiaeth ynghyd â themâu trawsbynciol;
- roedd ei adroddiadau ariannol o fewn blwyddyn, yn fewnol i'r Bwrdd ac yn allanol i Lywodraeth Cymru, yn dryloyw, yn gyson ac yn weddol gywir;
- er bod ganddo brosesau effeithiol i osod a monitro cynlluniau gwneud arbedion, ym mis 7 dim ond tua hanner cynlluniau cyllideb y cyfarwyddiaethau oedd wedi cael eu llofnodi'n derfynol; ac
- o'r targed o £17.25 miliwn o arbedion a osodwyd ar ddechrau'r flwyddyn, dim ond £10 miliwn o'r rhain yr oedd wedi llwyddo i'w cyflawni, a thrwy arian wrth gefn a gâi ei ddal yn ganolog a rhai enillion cyfrifyddu untro y llwyddwyd i gael balans ariannol am y flwyddyn.

### Yn 2015-16 mae'r Bwrdd Iechyd yn adrodd ar hyn o bryd y bydd yn mantoli'r gyllideb a chymryd y daw'r arian ychwanegol sydd wedi'i gynnwys yn ei Gynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd i law. Fodd bynnag, mae'n annhebygol o wireddu pob un o'i dargedau i arbed £14.6 miliwn, a hyd yma dim ond tua hanner cynlluniau cyllideb y cyfarwyddiaethau sydd wedi cael eu cymeradwyo'n derfynol gan y Cyfarwyddwr Clinigol/ Gweithredol. Mae hyn eto'n awgrymu y bu'r gwelliant yn arafach na'r disgwyl o ran cael rhanddeiliaid mewnol i ymrwymo i'r broses o wneud arbedion

**36.** Mae Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 wedi cyflwyno cyfundrefn ariannol fwy hyblyg. Mae'n rhoi dyletswydd ariannol gyfreithiol newydd ar fyrddau iechyd lleol i fantoli'r gyllideb dros dair blynedd ariannol dreigl yn hytrach nag ym mhob blwyddyn unigol.

Mae'r ddeddf yn caniatáu i fyrddau iechyd lleol ganolbwyntio ar gyfnod hirach, mwy hylaw, wrth gynllunio'u gwasanaethau a gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r gweithlu gan symud oddi wrth gyfundrefn sy'n annog penderfyniadau tymor byr yn canolbwyntio ar y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, mae'r hyblygrwydd ariannol hwn yn amodol ar allu cyrff y GIG i baratoi Cynlluniau Tymor Canolig Integredig cadarn, ac ar i'r cynlluniau hynny gael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan Weinidogion Cymru.

**37.** Mae'r gwaith a wnaed gennyf ar drefniadau rheolaeth ariannol y Bwrdd Iechyd wedi arwain at y casgliadau canlynol:

- Mae'r broses er nodi a monitro cynlluniau arbed costau yn dal yn gadarn.
- Ym mis 7, fodd bynnag, roedd tua hanner cynlluniau cyllideb y cyfarwyddiaethau heb gael eu cymeradwyo'n derfynol gan y Cyfarwyddwr Clinigol/Gweithredol. I fod yn wirioneddol effeithiol dylai cynlluniau cyllideb gael eu drafftio, dylid cytuno arnynt a dylent gael eu cymeradwyo cyn dechrau'r flwyddyn ariannol.
- Ym mis 7 yn 2015-16, roedd y Bwrdd Iechyd yn dal i ddarogan y byddai'n mantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ond roedd hyn yn dibynnu ar lwyddo i wireddu mwy o'r cynlluniau gwneud arbedion, gan fod y rheini ar eu hôl hi'n sylweddol ar y pryd. Ar y gyfradd gyfredol byddai diffyg o £2.8 miliwn yn erbyn y cyfanswm o £14.6 miliwn o arbedion yn y cynlluniau.
- Roedd y rhagolygon y byddid yn mantoli'r gyllideb yn dibynnu hefyd ar dderbyn yr arian ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru y manylir arno yn y cynllun tair blynedd. Hyd yma nid yw £3.5 miliwn o'r arian hwn wedi'i gadarnhau.
- Mae'r wybodaeth hon yn cael ei hadrodd mewn modd cyson a thryloyw i'r Bwrdd ac i Lywodraeth Cymru. Mae'r papur Diweddariad Cyllid Misol i'r Bwrdd Gweithredol yn fanwl iawn. Fodd bynnag, nid yw'r negeseuon lefel uchel bob amser yn glir. Er enghraifft, nid yw'n hawdd cysoni'r Crynodeb Gweithredol, y Meysydd sy'n Achosi Pryder a Phwyntiau Allweddol y Rhagolygon Diwedd Blwyddyn. O ganlyniad, mae perygl na fydd y negeseuon yn glir i ddarllenwyr y tu allan i'r Adran Gyllid.

## Mae'r Bwrdd wedi gosod gweledigaeth glir ac mae'n parhau i gryfhau'i drefniadau llywodraethu, er mai'r her iddo yw gwella rhai trefniadau cefnogi llywodraethu ymhellach, mynd i'r afael â gwendidau yn y rheolaeth fewnol, a datblygu fframwaith rheoli perfformiad

**38.** Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried fy nghanfyddiadau ar lywodraethu a sicrwydd y bwrdd, wedi'u cyflwyno o dan y themâu canlynol:

- Cynllunio strategol
- Effeithiolrwydd y Bwrdd
- Strwythurau llywodraethu
- Gwybodaeth reoli a pherfformiad yn erbyn targedau allweddol
- Mesurau rheoli mewnol

## Mae cynllun strategol tair blynedd y Bwrdd Iechyd (ei Gynllun Tymor Canolig Integredig) yn nodi gweledigaeth glir. Mae'r ffordd y mae'n ymdrin â chynllunio strategol ynghyd â chreu'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni yn darparu sylfaen gadarn er mwyn symud y sefydliad yn ei flaen a chefnogi gweithgarwch gwella. Fodd bynnag, gallai'r trefniadau i adrodd cynnydd yn erbyn y cynllun gael eu cryfhau

**39.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymeradwyo Cynllun Tymor Canolig Integredig o dan y teitl 'Cwm Taf Cares'. Mae'i drefniadau cynllunio wedi parhau i aeddfedu yn ystod 2015 ac maent yn cael eu datblygu a'u cryfhau ymhellach ar gyfer 2016. Ceir gweledigaeth glir yn y cynllun ac mae'n nodi pum amcan strategol ynghyd â blaenoriaethau clir ar gyfer 2015-16.

**40.** Mae'r ffordd o fynd ati i ddiweddaru'r cynllun yn dda ac mae'n cynnwys nifer o agweddau cadarnhaol megis amserlen gyflawni glir, canllawiau wedi'u rhoi i'r cyfarwyddiaethau ar y fframwaith cynllunio lleol i'w helpu i ddatblygu cynlluniau wedi'u hadnewyddu ar gyfer 2016-2019 a threfn 'o'r gwaelod i fyny' o nodi targedau arbedion.

**41.** Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn ymdrin yn fras â Rhaglen De Cymru ac yn amlinellu rhai trefniadau wrth gefn tra bydd yn cael ei rhoi ar waith. Mae'n trafod datblygiadau fel ehangu'r gwasanaethau newyddenedigol yn Ysbyty'r Tywysog Siarl yn glir ond ceir llai o fanylion am newidiadau i wasanaethau eraill, megis y gwasanaeth damweiniau ac achosion brys 24 awr dan arweiniad ymgynghorydd yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Mae cynnydd yn cael ei wneud ar nifer o brosiectau yn cynnwys: mabwysiadu'r model meddyginiaethau aciwt yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg a datblygu cynlluniau ar gyfer gwasanaethau pediatrig ac obstetrig.

**42.** Mae'r ffordd o ymdrin â threfniadau monitro prosiectau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn dda ar draws y sefydliad gydag atebolrwydd clir am brosiectau seiliedig mewn cyfarwyddiaeth a phrosiectau trawsbynciol. Fodd bynnag, mae angen i'r adroddiadau i'r Bwrdd adrodd yn glir ar y cynnydd yn erbyn blaenoriaethau 2015-16 a'r hyn yr oedd y Bwrdd wedi bwriadu'i gyflawni erbyn yr adeg dan sylw.

## Mae effeithiolrwydd a sicrwydd y Bwrdd yn dal i gryfhau er bod lle i wella'r trefniadau ymhellach mewn meysydd penodol

**43.** Mae'r Bwrdd yn arddangos arweinyddiaeth strategol dda, ymddygiad da, gweinyddiaeth effeithiol ac ymrwymiad i fod yn agored a gwella ansawdd. Mae wedi datblygu Fframwaith Sicrwydd Bwrdd – un o'm hargymhellion i y llynedd. Gellid gwella sicrwydd drwy fapio mesurau perfformiad yn erbyn risgiau unigol a nodir yn fframwaith sicrwydd y bwrdd i sicrhau cwmpas y gwasanaethau. Dylid datblygu mesurau i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau a nodir yn unol ag un arall o'm hargymhellion y llynedd.

**44.** Yn ystod 2015, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) adolygiad dilynol i edrych ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r argymhellion a nododd yn ei adolygiad llywodraethu gwreiddiol yn 2012. Dywedodd AGIC: 'Yn gyffredinol, mae AGIC yn falch ac wedi'i chalonogi gan y cynnydd a wnaed gan y bwrdd iechyd ers yr adolygiad cychwynnol yn 2011. Bu gwelliannau sylweddol yn y rhan fwyaf o'r meysydd, os nad pob un. Mae'r argymhellion a wnaed o ganlyniad i'r adolygiad dilynol hwn hefyd yn amlygu'r meysydd y mae angen eu gwella ymhellach.' Gwnaed un ar

bymtheg o argymhellion pellach yn ymdrin â'r meysydd bras canlynol: timau clinigol ac arweinyddiaeth, aelodau nad ydynt yn swyddogion, risg, cwynion, pryderon a hawliadau gan gleifion, dadansoddi tueddiadau, cynllunio gweithredu a rhannu dysgu, cyfathrebu gweledigaeth ac amcanion, datblygu ac arfarnu staff.

**45.** Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i ddarparu papurau is-bwyllgorau yn gyhoeddus ac mae rhyw ychydig o waith paratoi wedi'i wneud fel bod modd bwrw ymlaen â hyn yn 2016. O ran gwella hygyrchedd i aelodau'r cyhoedd, mae angen i wefan y Bwrdd Iechyd gyfeirio defnyddwyr yn glir at wybodaeth sy'n gyfredol, yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig cyfredol.

**46.** Yn hanesyddol bu gan y Bwrdd Iechyd gnewyllyn sefydlog o aelodau annibynnol. Bydd hyn yn newid yn 2016 a 2017 wrth i gyfnod llawer o aelodau annibynnol yn y swydd ddod i ben, yn cynnwys Cadeirydd y Bwrdd. O ystyried hynny mae'r Cadeirydd wedi sefydlu trefniadau cynllunio olyniaeth oddi mewn i'r grŵp presennol o aelodau annibynnol i sicrhau parhad o ran cadeiryddion is-bwyllgorau.

**47.** Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod cyrraedd y safon o gyhoeddi papurau'r Bwrdd ac is-bwyllgorau 10 diwrnod cyn y cyfarfodydd wedi bod yn her, ac mae wedi cwtogi'r cyfnod hwnnw i wythnos galendr erbyn hyn. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau nad yw'r amserlen fyrrach yn amharu ar allu'r Bwrdd ac is-bwyllgorau i ystyried adroddiadau. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ailystyried yr amserlenni pan gaiff aelodau annibynnol newydd eu penodi.

**48.** Fel rhan o'm hymrwymiad i helpu i sicrhau a dangos gwelliant drwy waith archwilio, rwyf wedi adolygu pa mor effeithiol yw trefniadau'r Bwrdd Iechyd i reoli argymhellion a wnaed fel rhan o'm rhaglen orfodol genedlaethol a lleol o waith archwilio yn ystod 2015 ac ymateb iddynt. Canfu'r gwaith hwn fod trefniadau i fynd i'r afael ag argymhellion archwilio ac i fonitro'u gweithrediad wedi cael eu sefydlu yn 2015, ac maent yn aeddfedu. Mae'r Pwyllgor Archwilio, ym mhob cyfarfod, yn cael adroddiad olrhain argymhellion archwilio sy'n nodi'r cynnydd a wnaed ac yn amlygu'n glir yr argymhellion hynny nad ydynt wedi'u cwblhau o fewn yr amserlen y cytunwyd arni.

**49.** Bydd angen mecanwaith ar y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod argymhellion o eiddo Swyddfa Archwilio Cymru sy'n dyddio o'r cyfnod cyn mis Ionawr 2014, ac sy'n dal yn ddilys, yn cael eu monitro'n briodol a bod argymhellion yr adroddir eu bod 'wedi'u cwblhau' wedi eu cwblhau mewn gwirionedd.

### Mae'r strwythur is-bwyllgorau yn gefn i'r gofynion llywodraethu ond mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod lle i wella'r trefniadau mewn meysydd penodol

**50.** Mae'r strwythur is-bwyllgorau yn cwmpasu holl fusnes y Bwrdd Iechyd ac yn gefn i'r gofynion llywodraethu ond mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod lle i wella'r trefniadau mewn meysydd penodol, yn arbennig y trefniadau llywodraethu i gefnogi'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud gwaith i wella'r cysylltiadau rhwng y pwyllgorau Ansawdd a Diogelwch a Risg Gorfforaethol ac erbyn hyn mae wedi cynnwys y gweithlu'n ffurfiol o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a'r Gweithlu. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Integredig yn dal i ddarparu rôl ganolog yn

sicrhau bod meysydd busnes allweddol yn cael eu cipio o fewn gwaith yr is-bwyllgorau, heb unrhyw fylchau.

**51.** Cafodd cylch gorchwyl yr is-bwyllgorau ei adolygu ac mae'r pwyllgorau i gyd wedi cynnal hunanasesiad yn 2015, sy'n welliant sylweddol ar y flwyddyn flaenorol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn y broses ar hyn o bryd o adolygu pa grwpiau gweithredol sy'n darparu adroddiadau ac yn cyfrannu at waith is-bwyllgorau unigol, ac mae cyfle i adlewyrchu'r trefniadau hyn yn gliriach yng nghylch gorchwyl pob pwyllgor. Ar hyn o bryd, nid yw'r blaenraglenni gwaith yn cael eu mabwysiadu'n gyson gan y pwyllgorau er bod y Bwrdd Iechyd yn bwriadu mabwysiadu trefn safonol ar draws yr holl is-bwyllgorau yn 2016.

**52.** Nododd fy nhîm fod ansawdd a dyfnder y craffu yn gallu amrywio rhwng is-bwyllgorau. Yr her sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd fydd sicrhau lefel gyson o ymarfer ar draws y pwyllgorau i gyd o safbwynt cadeirio a chraffu.

**53.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i wneud gwelliannau i weithrediad y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ac mae'n cydnabod bod angen datblygiadau pellach i wella'i drefniadau. Er bod mwy o ddisgyblaeth o ran yr agenda, mae'r cyfarfodydd rheoli yn hir ac mae cymhlethdod a maint agendâu'r cyfarfodydd yn ei gwneud hi'n anodd dal y ddysgl yn wastad rhwng craffu manwl a chynnal trosolwg gyffredinol.

**54.** Mae'r prosesau busnes angenrheidiol ar waith gan y Pwyllgor Archwilio o ran rheoli agendâu, ymgysylltu â'r archwilwyr mewnol ac allanol, croesgyfeirio materion at is-bwyllgorau eraill, olrhain hynt camau gweithredu ac argymhellion a hunanasesu ei berfformiad. Fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd Iechyd ei sicrhau ei hun y dylai fod gan o leiaf un aelod o'r Pwyllgor Archwilio brofiad ariannol perthnasol diweddar.

**55.** Mae'r Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a'r Gweithlu yn effeithiol a nododd fy nhîm fod y cadeirio'n gryf a bod y craffu a'r herio yn gadarn. Bydd angen cynllunio olyniaeth yn briodol oherwydd y trosiant ymysg aelodau annibynnol i sicrhau bod y pwyllgor hwn yn cynnal ei fomentwm a'i drefniadau gwaith cryf.

**56.** Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau rheoli mewnol digonol ond mae angen gwella rhai o'r trefniadau presennol, yn arbennig, rheoli gordaliadau i staff, rheolaeth dros waredu asedau, a'r data a ddefnyddir i gyfrifyddu'r darpariaethau Gofal Iechyd Parhaus.

### Mae'r Bwrdd yn cael gwybodaeth ddigonol ac mae'n mireinio'r wybodaeth reoli ymhellach fel ei bod yn hyrwyddo craffu effeithiol a ffordd effeithiol o wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, mae'n dal i wynebu sialensiau o ran cyrraedd rhai targedau perfformiad cenedlaethol allweddol

**57.** Yn gyffredinol mae'r Bwrdd yn cael gwybodaeth ddigonol ac yn ystod y 12 mis diwethaf mae wedi cryfhau a mireinio'r wybodaeth reoli ymhellach fel ei bod yn hyrwyddo craffu effeithiol a ffordd effeithiol o wneud penderfyniadau. Cafodd mesurau perfformiad newydd eu cyflwyno ac mae cardiau sgorio yn cael eu datblygu.

**58.** Mae'r adroddiad perfformiad i'r Bwrdd yn cynnwys agweddau cadarnhaol megis defnyddio tablau cryno i roi trosolwg o gynnydd, ac rwy'n deall y bydd y tabl 'Ar Gipolwg', sy'n gymaint o gymorth i aelodau annibynnol, yn cael ei ailgyflwyno. Fodd bynnag, mae lle o hyd i gysoni'r adroddiadau â blaenoriaethau Cynllun Tymor Canolig

Integredig 2015-16, gan ehangu cwmpas yr adroddiad perfformiad fel ei fod yn cwmpasu holl weithgarwch y Bwrdd Iechyd ac yn nodi'n glir ble mae'r cyfrifoldeb am gyflawni'r camau sydd wedi'u rhestru yn gorffwys

**59.** Er nad oes gan y Bwrdd Iechyd fframwaith rheoli perfformiad, mae'r trefniadau i adrodd ar berfformiad yn dal i ddatblygu ond mae'r bwrdd yn wynebu sialensiau o ran cyrraedd rhai targedau perfformiad cenedlaethol allweddol. Gellid cryfhau'r adrodd ar berfformiad drwy i'r Bwrdd Iechyd adolygu pob un o'i adroddiadau perfformiad i sicrhau eu bod yn addas i'w diben ac yn ateb yr angen a fwriadwyd.

## Yn fy ngwaith archwilio perfformiad, canfuwyd cyfleoedd i sicrhau defnydd gwell o adnoddau mewn nifer o feysydd allweddol

**60.** Fel rhan o'm hasesiad strwythuredig rwyf wedi adolygu nifer o elfennau allweddol sy'n galluogi defnydd effeithiol o adnoddau, tra mae fy ngwaith archwilio perfformiad ehangach wedi edrych ar nifer o feysydd cyflenwi gwasanaethau penodol. Mae'r negeseuon allweddol o'r darnau gwaith hynny wedi'u crynhoi isod.

**61.** Mae fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig wedi adolygu sut mae nifer o elfennau allweddol sy'n galluogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau yn cael eu rheoli. Er bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau rheoli newid ar waith i'w helpu i gyflawni'i Gynllun Tymor Canolig Integredig, mae'r gwaith hwn wedi dangos bod angen gwelliannau os yw TGCh i ddarparu cymorth effeithlon i gyflenwi gwasanaethau. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau allweddol yn Arddangosyn 2

Arddangosyn 2: Asesiad Strwythuredig – elfennau allweddol sy'n galluogi defnydd effeithiol o adnoddau

| Mater | Crynodeb o'r canfyddiadau |
|---|---|
| Capasiti i reoli newid | Canolbwyntiodd fy ngwaith nid dim ond ar drefniadau corfforaethol ond edrychodd hefyd ar ddau brosiect, strôc a gofal lliniarol. Yn gyffredinol mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau rheoli newid digonol ar waith yn sail i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, ond mae angen cryfhau'r ffordd yr eir ati i wireddu buddion:<br>• cafodd y prosiect Strôc ei reoli'n dda at ei gilydd yn ystod y datblygu a'r gweithredu ond gellid cryfhau rhai o drefniadau rheoli'r prosiect ac nid yw rhai canlyniadau perfformiad wedi'u gwireddu eto; ac<br>• mae'r prosiect gofal lliniarol wedi cael ei reoli'n dda gyda gwaith partneriaeth effeithiol hyd yma ond mae sialensiau'n parhau o ran sicrhau arian a gwireddu adeiladau newydd a gwelliannau i'r gwasanaeth. |

| Mater | Crynodeb o'r canfyddiadau |
| --- | --- |
| Defnyddio technoleg | **Adolygiad diagnostig o gapasiti ac adnoddau TGCh**<br>Er bod rhai agweddau cadarnhaol, mae ein gwaith diagnostig yn dangos nad yw'r lefel gyfredol o fuddsoddi ac ymrwymo i TGCh yn y Bwrdd Iechyd yn llwyr effeithiol o ran helpu i gyflenwi gofal iechyd, a bod lle i integreiddio systemau a lleihau'r ddibyniaeth ar bapur:<br>• mae'r gwariant drwyddo draw ar TGCh yn is na chyfartaledd Cymru ac mae'n dal yn is na'r lefel gwariant sy'n cael ei hargymell; ac<br>• mae'r lefel staffio ym maes TGCh yn agos at gyfartaledd Cymru ar wahân i'r staff rheoli gwybodaeth sydd ar y lefel isaf yng Nghymru.<br>Er bod rhai agweddau cadarnhaol, mae ein gwaith diagnostig yn dangos nad yw'r lefel gyfredol o fuddsoddi ac ymrwymo i TGCh yn y Bwrdd Iechyd yn llwyr effeithiol o ran helpu i gyflenwi gofal iechyd, a bod lle i integreiddio systemau a lleihau'r ddibyniaeth ar bapur:<br>• mae lefel yr ymrwymiad i TGCh yn is nag mewn byrddau iechyd eraill, ac mae diffyg integreiddio o fewn systemau ac adnoddau;<br>• y Bwrdd Iechyd sydd â'r nifer lleiaf o ddyfeisiau er bod cyrchu at PCs yn llai problematig yn gyffredinol nag mewn llawer o fyrddau iechyd eraill;<br>• mae cyflwr y cyfarpar TGCh a dibynadwyedd systemau yn ymddangos yn nodweddiadol o Gymru er bod y cofnodion ar gyfer rheoli amser segur yn anghyflawn;<br>• mae trefniadau hyfforddi da sy'n hybu medrusrwydd o ran defnyddio systemau ac ansawdd y wybodaeth sy'n cael ei dal arnynt; ac<br>• nid yw'r systemau TGCh clinigol prif ffrwd yn llwyr effeithiol o ran helpu meddygon i ddarparu gofal i gleifion. |

| Mater | Crynodeb o'r canfyddiadau |
| --- | --- |
| Defnyddio technoleg | **Gwaith dilynol cyfun yn deillio o'r archwiliadau Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg**<br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn cryfhau'r trefniadau yn y meysydd rydym wedi eu hystyried fel rhan o'r adolygiad hwn, ond araf fu'r cynnydd yn erbyn ein hargymhellion blaenorol:<br>• er bod y rhan fwyaf o adrannau wedi defnyddio dull safonol y Bwrdd Iechyd o gynllunio parhad y busnes, ni chafodd y templed corfforaethol sydd ar gael ei ddilyn yn gynhwysfawr; nid oes gan yr adran TG gynllun adfer ar ôl trychineb, a chyfyngedig yw'r profi ar y cynlluniau adfer ar ôl trychineb a pharhad busnes; a<br>• chaiff rheolaethau meddalwedd, caledwedd a mynediad priodol eu defnyddio wrth roi'r trefniadau i gadw copi wrth gefn ar waith ond nid oes polisi ar gadw copi wrth gefn, ac ni chofnodir pob gweithdrefn a dull o gadw copi wrth gefn yn ddigonol.<br>**Gwaith dilynol cyfun yn deillio o'r archwiliadau Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg (parhad)**<br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn cryfhau'r trefniadau yn y meysydd rydym wedi eu hystyried fel rhan o'r adolygiad hwn, ond araf fu'r cynnydd yn erbyn ein hargymhellion blaenorol:<br>• mae trefniadau llywodraethu Caldicott wedi cael eu cryfhau, a'r dulliau hyfforddi wedi'u gwella ond nid yw rhai staff perthnasol wedi gwneud yr hyfforddiant eto; ac<br>• mae nifer o gynlluniau i gryfhau'r trefniadau ansawdd data, yn cynnwys rhaglen o archwiliadau ansawdd data, adroddiad blynyddol ac ychwanegu staff allweddol, ond mae angen gwella rhai o'r trefniadau llywodraethu. |

### Er bod gweledigaeth ar lefel uchel o ran y gwasanaethau nyrsio ardal, mae angen gwaith pellach i gryfhau'r cynllunio ar y gwasanaeth a'r monitro perfformiad, ac i wella'r ddealltwriaeth o'r galw a'r ffordd o ddefnyddio staff

**62.** Deuthum i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae'r gwasanaeth nyrsio ardal yn rhan annatod o weledigaeth y Bwrdd ar gyfer gwasanaethau sylfaenol a chymunedol gyda llinellau atebolrwydd clir mewn ardaloedd, ond nid yw'r gofynion manwl o ran y gweithlu wedi'u nodi eto;

- mae adnoddau da'n cael eu darparu i'r gwasanaeth nyrsio ardal ond cyfyngedig yw'r ddealltwriaeth o'r galw am y gwasanaeth ac mae angen rheoli galw amhriodol yn well;
- mae'r gwahaniaeth diesboniad rhwng y ffordd y defnyddir yr adnoddau nyrsio ardal a dosbarthiad yr adnoddau yn golygu na all y Bwrdd Iechyd fod yn sicr fod ei staff nyrsio ardal yn cael eu defnyddio'n effeithiol; ac
- mae'r Bwrdd Iechyd yn chwarae rhan weithredol ar fforymau nyrsio ardal Cymru gyfan, ond nid yw'r trefniadau i fonitro'r gwasanaethau nyrsio ardal ar lefel gorfforaethol wedi'u datblygu'n ddigonol.

### Er i'r Bwrdd Iechyd ymateb yn briodol i bryderon ynglŷn â'r anomaleddau o ran data'r rhestrau aros, ac iddo gryfhau prosesau wedi hynny, roedd sawl agwedd o'i ymchwiliad yn anfoddhaol

**63.** Deuthum i'r casgliad hwn oherwydd:

- roedd ymateb y Bwrdd Iechyd ar unwaith i'r pryderon yn briodol ac yn dyngedfennol ceisiodd sicrwydd nad oedd unrhyw glaf wedi dioddef niwed oherwydd iddo gal ei roi ar restr dros dro;
- roedd sawl agwedd o ymchwiliadau'r Bwrdd Iechyd i anomaleddau'r rhestrau aros yn anfoddhaol a methodd yn y pen draw â nodi unrhyw atebolrwydd unigol am y problemau yr oedd yn eu cydnabod; ac
- er bod y Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael â gwendidau yn ei brosesau i reoli'r rhestrau aros ac atal y problemau a nodwyd rhag digwydd eto, mae'n bwysig cipio'r dysgu o'r broses ymchwilio i sicrhau na chaiff y problemau eu hailadrodd yn y dyfodol.

### Yn gyffredinol mae'r trefniadau corfforaethol i reoli meddyginiaethau yn gryf ac mae'r perthnasoedd gwaith yn dda ond mae cyfleoedd i gryfhau rhai prosesau rheoli meddyginiaethau, cynyddu'r defnydd o dechnoleg, mynd i'r afael â rhai materion yn ymwneud â chyfleusterau ac ehangu'r monitro ar berfformiad

**64.** Deuthum i'r casgliad hwn oherwydd:

- Mae'r trefniadau corfforaethol i reoli meddyginiaethau yn gryf gyda gweledigaeth strategol glir ac arbedion yn cael eu cyflawni fel y cynlluniwyd.
- Mae ffocws cryf ar hyfforddi a datblygu o fewn y tîm fferylliaeth, sydd â chymysgedd sgiliau rhagorach a chostau ychydig uwch-na'r-cyfartaledd mewn perthynas â gweithgarwch cleifion mewnol. Mae'r fferyllfa yn bresenoldeb gweladwy da a chanddi berthynas dda â staff ar lefel y wardiau ond dylid adolygu'r gwasanaethau y tu allan i oriau.
- Mae cyfleusterau'r fferyllfa yn cydymffurfio â'r gofynion allweddol at ei gilydd ond mae risg yn gysylltiedig â'r diffyg lle i storio meddyginiaethau ar lefel ward.

- Dylid gwella'r trefniadau i drosglwyddo gwybodaeth am feddyginiaethau a defnyddio systemau electronig, yn ogystal â phrydlondeb a chywirdeb gwybodaeth rhyddhau cleifion.
- Mae trefniadau da i fonitro pan aiff pethau o chwith ond mae potensial i ehangu'r dangosyddion perfformiad presennol a gwella'r adborth i staff y Bwrdd Iechyd.

Er bod lefel y buddsoddi mewn gofal sylfaenol yn dda a'i bod yn ymddangos bod nifer yr atgyfeiriadau am wasanaethau orthopedeg yn lleihau, mae llawer o atgyfeiriadau yn cael eu hanfon drwy wasanaethau ffisiotherapi ac nid yw'r rheini'n gallu ymdopi â'r galw. Unwaith y maent ar y llwybr orthopedeg, mae'r gwasanaethau i gleifion allanol a mewnol yn aneffeithiol ar y cyfan a chymysg yw'r canlyniadau i gleifion

**65.** Mae fy nghasgliad ynglŷn ag effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd gwasanaethau orthopedeg yn y Bwrdd Iechyd wedi'i seilio ar y data a gasglwyd fel rhan o'm hadolygiad cenedlaethol i wasanaethau orthopedeg yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2015. Canfu fy adolygiad:

- bod lefel gadarnhaol o fuddsoddi mewn gofal sylfaenol gyda gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau am wasanaethau orthopedeg, ond nid yw'r Gwasanaeth Asesu a Thrin Cyhyrysgerbydol Clinigol yn gweithredu yn unol a'i bwrpas bwriedig. O ganlyniad, mae atgyfeiriadau yn cael eu hanfod drwy wasanaethau ffisiotherapi;
- mae'r gwasanaethau i gleifion allanol yn aneffeithlon gyda lefelau uchel o apwyntiadau dilynol, cleifion Ddim Wedi Cadw Apwyntiad neu'n canslo, ac nid yw'r gwasanaethau ffisiotherapi a radioleg yn gallu diwallu'r galw;
- gellid gwella hyd arosiadau a'r defnydd o'r capasiti gwelyau orthopedeg yn sylweddol drwy gynyddu'r cyfraddau achosion dydd, derbyniadau ar ddiwrnod y llawdriniaeth a'r ffordd y defnyddir theatrau; ac
- mae'r trefniadau dilynol yn gweithio'n dda yn gyffredinol er bod y canlyniadau yn sgil ymyrraeth lawfeddygol yn gymysg ar draws y Bwrdd Iechyd a hefyd o'u cymharu â gweddill Cymru.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwella'r rhestr aros am apwyntiadau dilynol o safbwynt cywirdeb ond mae nifer y cleifion sy'n wynebu oedi ar gynnydd ac mae angen iddo wneud mwy i asesu'r risgiau clinigol, i wella'r prosesau gweinyddol ac i fynd i'r afael â'r oedi can cael apwyntiadau dilynol

**66.** Deuthum i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae'r Bwrdd Iechyd yn gwella cywirdeb ei restr aros am apwyntiadau dilynol ond mae angen iddo wella'r ffordd y mae'n asesu ac yn adrodd ar risgiau clinigol a gwneud yn siŵr fod newidiadau i'r prosesau archebu yn cael eu gweithredu;
- mae nifer y cleifion sy'n aros am apwyntiad dilynol a nifer y cleifion sy'n wynebu oedi yn cynyddu; ac

- er bod gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau i ddatblygu gwasanaethau yn y gymuned, cyfyngedig yw'r effaith y mae'r trefniadau gweithredol presennol yn ei chael o ran lleihau'r oedi cyn cael apwyntiad dilynol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd yn mynd i'r afael â rhai argymhellion o waith archwilio blaenorol, ond araf fu'r gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion yn ymwneud â TGCh ac mae camau pwysig yn dal heb eu cyflawni

**67.** Yn ogystal ag adolygu pa mor effeithiol yw trefniadau'r Bwrdd Iechyd i reoli argymhellion a wnaed fel rhan o'm rhaglen orfodol genedlaethol a lleol o waith archwilio ac ymateb iddynt fel y trafodwyd ym mharagraff 48, canfu fy ngwaith fod cynnydd da wedi'i wneud yn 2015 i fynd i'r afael â llawer o'r argymhellion a wnaed gennyf yn asesiad strwythuredig 2014.

**68.** Yn ystod y 12 mis diwethaf, rwyf hefyd wedi gwneud gwaith archwilio dilynol manwl i asesu'r cynydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd er mwyn ymdrin â phryderon ac argymhellion a godai o waith archwilio blaenorol mewn meysydd cyflenwi gwasanaeth penodol. Ceir crynodeb o ganfyddiadau'r gwaith dilynol hwn yn Arddangosyn 3.

Arddangosyn 3: Cynnydd o ran gweithredu argymhellion archwilio

| Maes gwaith dilynol | Casgliadau a chanfyddiadau archwilio allweddol |
| --- | --- |
| Gwasanaethau arlwyo ysbytai a maeth cleifion | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da yn mynd i'r afael â'r argymhellion i wella'r gwasanaethau arlwyo a maeth ac mae wedi lleihau'r cymhorthdal i wasanaethau arlwyo ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion yn sylweddol. Mae lle eto i gryfhau rhai agweddau o sgrinio maethol, i sicrhau cymorth nyrsio amserol adeg prydau bwyd ac i leihau costau'r gwasanaeth arlwyo ar gyfer cleifion:<br>• mae'r trefniadau i ddiwallu anghenion deiet a maeth cleifion yn dal i wella ond nid yw pob claf yn cael ei asesu'n rheolaidd ac mae angen gwella'r prosesau cadw cofnodion;<br>• mae'r profiad adeg prydau bwyd wedi gwella, ond nid oedd y cymorth nyrsio bob amser yn brydlon adeg prydau bwyd;<br>• mae lefel y cymhorthdal i wasanaethau arlwyo ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion wedi gostwng yn sylweddol a dyma'r isaf yng Nghymru ond nid yw costau'r arlwyo ar gyfer cleifion yn cymharu'n ffafriol â Chymru; ac<br>• mae'r trefniadau i gynllunio, monitro ac adrodd ar wasanaethau arlwyo a maeth ysbytai yn gadarn ar y cyfan. |

| Maes gwaith dilynol | Casgliadau a chanfyddiadau archwilio allweddol |
|---|---|
| Gwaith dilynol cyfun yn deillio o'r archwiliadau Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg | Mae'r Bwrdd Iechyd yn cryfhau'r trefniadau yn y meysydd rydym wedi eu hystyried fel rhan o'r adolygiad hwn, ond araf fu'r cynnydd yn erbyn ein hargymhellion blaenorol:<br>• er bod y rhan fwyaf o adrannau wedi defnyddio dull safonol y Bwrdd Iechyd o gynllunio parhad y busnes, ni chafodd y templed corfforaethol sydd ar gael ei ddilyn yn gynhwysfawr; nid oes gan yr adran TG gynllun adfer ar ôl trychineb, a chyfyngedig yw'r profi ar y cynlluniau adfer ar ôl trychineb a pharhad busnes;<br>• caiff rheolaethau meddalwedd, caledwedd a mynediad priodol eu defnyddio wrth roi'r trefniadau i gadw copi wrth gefn ar waith ond nid oes polisi ar gadw copi wrth gefn, ac ni chofnodir pob gweithdrefn a dull o gadw copi wrth gefn yn ddigonol;<br>• mae trefniadau llywodraethu Caldicott wedi cael eu cryfhau, a'r dulliau hyfforddi wedi'u gwella ond nid yw rhai staff perthnasol wedi gwneud yr hyfforddiant eto; ac<br>• mae nifer o gynlluniau i gryfhau'r trefniadau ansawdd data, yn cynnwys rhaglen o archwiliadau ansawdd data, adroddiad blynyddol ac ychwanegu staff allweddol, ond mae angen gwella rhai o'r trefniadau llywodraethu. |

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Mehefin 2015 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2015 |
| Memorandwm Datganiadau Ariannol | Gorffennaf 2015 |
| Barn ar Gronfeydd a Ddelir mewn Ymddiriedaeth | Tachwedd 2015 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Adolygiad o Wasanaethau Nyrsio Ardal | Mawrth 2015 |
| Ymdrin ag Anomaleddau Hanesyddol mewn Rhestrau Aros | Mai 2015 |
| Adolygiad Rheoli Meddyginiaethau | Mehefin 2015 |
| Adolygiad o Wasanaethau Orthopedeg | Mehefin 2015 |
| Adolygiad o Apwyntiadau Dilynol Cleifion Allanol | Hydref 2015 |
| Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai – Adolygiad Dilynol | Hydref 2015 |
| Adolygiad Diagnostig o Gapasiti ac Adnoddau TGCh | Tachwedd 2015 |
| Adolygiad dilynol cyfun o archwiliadau Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg | Rhagfyr 2015 |
| Asesiad Strwythuredig 2015 | Rhagfyr 2015 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Cynllun Archwilio 2015 | Mawrth 2015 |

Mae nifer o archwiliadau perfformiad yn dal i fynd rhagddynt hefyd yn y Bwrdd Iechyd. Dangosir y rhain isod, gyda dyddiadau cwblhau amcangyfrifedig ar gyfer y gwaith.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig |
|---|---|
| Adolygiad Dilynol o Gontractau Meddygon Ymgynghorol | Mehefin 2016 |
| Adolygiad o Wasanaethau Radioleg | Medi 2016 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd Cynllun Archwilio 2015 y ffi archwilio arfaethedig o £417,348 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar y sail fod peth gwaith yn dal ar y gweill, yn unol â'r ffi a nodwyd yn yr amlinelliad.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio arwyddocaol

Nododd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2015 y risgiau archwilio ariannol arwyddocaol ar gyfer 2015. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut y rhoddwyd sylw iddynt fel rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio arwyddocaol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae'r risg y gallai'r rheolwyr wrthwneud mesurau rheoli yn bresennol ym mhob man. Oherwydd y gallai hynny ddigwydd mewn ffordd nad oes modd ei rhagweld, caiff ei hystyried yn risg arwyddocaol [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodolrwydd cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod tueddiadau; a<br>• gwerthuso sail resymegol unrhyw drafodion sylweddol y tu allan i'r busnes arferol. | O brofi sampl o drafodion cadarnhawyd bod dyddlyfrau, addasiadau, amcangyfrifon cyfrifyddu a thrafodion y tu allan i'r busnes arferol yn briodol. |
| Mae risg y bydd y Bwrdd Iechyd yn methu cyrraedd ei derfyn adnoddau refeniw blynyddol. Dangosai sefyllfa mis 10 diffyg yn ystod y flwyddyn tan hynny o £2.9 miliwn ac roedd yn rhagweld diffyg diwedd blwyddyn o ddim. Gallaf ddewis rhoi adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol yn egluro cyd-destun eich perfformiad ariannol.<br>Mae'r pwysau ariannol ar y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn cynyddu'r risg o duedd mewn barnau rheoli ac amcangyfrifon mewn ymdrech i gadw at y terfyn adnoddau. | Wrth gynnal profion bydd fy nhîm archwilio yn canolbwyntio ar feysydd yn y datganiadau ariannol lle gallai fod tuedd wrth adrodd. | Mae fy mhrofion ar sampl o amcangyfrifon a barnau wedi cadarnhau eu bod yn briodol |
| Mae risg na fydd y Bwrdd Iechyd yn cyfrifyddu'n gywir am yr anghydfod cyfreithiol sy'n parhau gydag un o'i gontractwyr ar brosiect adeiladu Ysbyty Cwm Rhondda. Yn y blynyddoedd blaenorol mae'r hawliad wedi cael ei rannu rhwng darpariaethau a rhwymedigaethau wrth gefn ar sail y cyngor cyfreithiol a gafwyd ac amcangyfrif cyfrifyddu. | Bydd fy nhîm archwilio yn trafod y driniaeth gyfrifyddu a'r cyngor cyfreithiol diweddaraf gyda'r Bwrdd Iechyd ac yn asesu a yw'r amcangyfrif yn rhesymol. | Archwiliodd fy nhîm archwilio y wybodaeth ddiweddaraf a oedd ar gael am yr anghydfod cyfreithiol hwn a daeth i'w casgliad fod sail yr amcangyfrif yn rhesymol. |

| Risg archwilio arwyddocaol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a’r canlyniad |
|---|---|---|
| 2014-15 yw’r flwyddyn gyntaf i’r Bwrdd Iechyd gynnal y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Argyfwng newydd. Mae risg na ddilynir canllawiau Llywodraeth Cymru ar sut i ddatgelu gwybodaeth ariannol yn ymwneud â’r Cyd-bwyllgor newydd hwn yng Nghyfrifon y Bwrdd Iechyd, neu na chaiff y ffigurau eu datgelu’n gywir. | Bydd fy nhîm archwilio yn trafod y driniaeth gyfrifyddu gyda staff cyllid Cwm Taf a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, a bydd yn profi sampl o’r ffigurau a ddatgelir yn unrhyw un o segmentau’r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Argyfwng. | Cadarnhaodd fy ngwaith archwilio fod canllawiau Llywodraeth Cymru wedi’u dilyn. |
| Megis gyda phob un o Fyrddau Iechyd Cymru, mae risg o gamddatgan wrth ailbrisio ar i fyny asedau a oedd gynt wedi’u niweidio ac na chânt eu hysgrifennu’n ôl yn gywir yn erbyn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Gallai hyn arwain at gamddatganiadau perthnasol o ran y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn, y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a’r Gronfa Gyffredinol. | Bydd fy nhîm archwilio yn ystyried sut y cyfrifyddwyd ailbrisiadau ac yn dod i gasgliad ynglŷn â’u cywirdeb a’r ffordd yr ymdriniwyd â nhw mewn perthynas ag IAS 16 ac unrhyw ganllawiau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol. | Cadarnhaodd fy ngwaith archwilio fod y driniaeth gyfrifyddu yn y maes hwn, ar ôl addasiadau, yn gywir ym mhob ffordd berthnasol. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru